Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Ionawr 2020

Annwyl David,

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru', sy'n nodi'r blaenoriaethau negodi bras a fydd, yn ein barn ni, yn cynnig y ffordd orau o ddiogelu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Diben y ddogfen yw nodi sut yr ydym yn credu y gellid datblygu'r datganiad gwleidyddol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r UE ym mis Hydref er mwyn lleihau'r niwed economaidd a fydd yn digwydd wrth ymadael â'r UE.

Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, rydym wedi cynhyrchu dadansoddiad economaidd wedi ddiweddaru ynglŷn â'r berthynas fasnach yn y dyfodol, a hwnnw wedi'i lunio gan Brif Economegydd Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiad annibynnol gan Arsyllfa Polisi Masnach y DU sy'n dadansoddi'r goblygiadau posibl i fasnach allanol Cymru o ganlyniad i'r protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon fel y'i nodwyd yn y Cytundeb Ymadael.

Mae'r dogfennau ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/y-berthynas-rhwng-y-du-ar-ue-yn-y-dyfodol

Gobeithio y bydd y dystiolaeth newydd hon a’r eglurhad pellach hwn o flaenoriaethau negodi Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol i’r Pwyllgor. Rwy’n edrych ymlaen at drafod y materion hyn gyda chi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn gywir,

Jeremy Miles AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister